


Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016



**CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (Y CANLLAWIAU)
Safleoedd Datblygu**

**I'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r:
Cynllun Datblygu Lleol: o'i Fabwysiadu (2013-2021)**

CYNGOR SIR PENFRO

Rhagair

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (y Canllawiau) hyn yn darparu gwybodaeth safle-benodol am bob safle a neilltuwyd ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau. Paratowyd y CCA i roi syniad i ddarpar ddatblygwyr o'r cyfyngiadau hysbys ar safleoedd unigol. Canllawiau yw'r wybodaeth i'r materion ac ystyriaethau sy'n debygol o godi ar bob safle datblygu. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gofyn am wybodaeth a chyfraniadau ychwanegol i roi sylw i faterion na nodwyd yn y CCA hwn.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob rhan o Sir Benfro ac eithrio'r Parc Cenedlaethol. **Bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol arwyddocaol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	4
1 Sut i ddefnyddio'r Canllawiau hyn	5
2 Ystyriaethau sy'n berthnasol i bob safle	10
3 Ardaloedd Strategol	12
4 Dyraniadau Cyflogaeth.....	13
Dyraniadau Cyflogaeth Strategol.....	13
Dyraniadau Cyflogaeth Lleol	21
Dyraniadau Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	47
Safleoedd cyflogaeth presennol (prif safleoedd).....	49
5 Dyraniadau Defnydd Cymysg.....	51
6 Dyraniadau Manwerthu	57
7 Marinas	68
8 Dyraniadau Preswyl	71
Trefi Ffocws – Ffocws yr Hafan	71
Trefi Ffocws – Ffocws Gogledd Sir Benfro	105
Tref Wledig.....	111
Canolfannau Gwasanaethol.....	114
Pentrefi Gwasanaethol.....	126
9 Llety Arbenigol a Llety gyda Chymorth	176
10 Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr	178
11 Cyfleusterau Cymunedol	182
12 Allwedd i godau Dŵr Cymru Welsh Water	189

Cyflwyniad

- I) Dylid darllen y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n neilltuo safleoedd i'w datblygu yn ystod cyfnod y cynllun, rhwng ei fabwysiadu a 2021. Caiff safleoedd eu neilltuo ar gyfer datblygu cartrefi newydd, mangreoedd cyflogaeth newydd, marinas, cynlluniau defnydd cymysg, cyfleusterau cymunedol, llety arbenigol a llety gyda chymorth a llety i sipsiwn-teithwyr.
- II) Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol (y Canllawiau) yn rhan o'r Cynllun Datblygu, ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r Canllawiau yn ymhelaethu ar bolisiau'r Cynllun Datblygu a/neu gynigion safle-benodol a byddant yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio.
- III) Mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol i bob rhan o Sir Benfro ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Talfyriadau Cyffredin

AMP	Asset Management Programme / Cynllun Rheoli Asedau
Dph	Dwellings per hectare / Anheddau i bob hectar
GRhC	Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Y Canllawiau	Canllawiau Cynllunio Atodol
SDCau	Systemau Draenio Cynaliadwy
SWTRA	South Wales Trunk Roads Agency / Asiant Cefnffyrdd De Cymru
TPO	Tree Preservation Order / Gorchymyn Cadw Coed
LIC	Llywodraeth Cymru
GTDG	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

1 Sut i ddefnyddio'r Canllawiau hyn

- 1.1 Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu safle a neilltuwyd, perchnogion safleoedd a neilltuwyd ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn sut a phryd y gallai datblygu ddiwydd ar safleoedd a neilltuwyd ddarllen y Canllawiau hyn. Maent yn esbonio'r cyfyngiadau y gwyddys amdanynt y bydd angen i ddarpar ddatblygwyr eu hystyried wrth baratoi cynigion ar gyfer safleoedd a neilltuwyd.
- 1.2 Trefnir y Canllawiau yn ôl y math o ddyraniad, gan ddilyn y drefn yr ymddengys y polisiau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Ceir adran am bob math o ddyraniad. Yn yr adrannau hyn caiff gwybodaeth sylfaenol megis enw, maint a lleoliad y safle ei hategu (lle y bo'n berthnasol) gan fanylion a chanllawiau mwy manwl. Mae gan bob safle a neilltuwyd gofnod yn y tabl a drefnir yn unol â'r templed a ddangosir isod yn Nhabl 1.
- 1.3 Mae dyraniadau cyflogaeth naill ai yn 'Strategol' neu'n 'Lleol'. Rhestrir safleoedd strategol yn gyntaf, wedi'u dilyn gan safleoedd Lleol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys tri safle a neilltuwyd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Er gwybodaeth, darperir rhestr o'r prif safleoedd cyflogaeth presennol ar ddiwedd adran 3, i helpu darpar ddatblygwyr sy'n chwilio am dir cyflogaeth.
- 1.4 Yn yr adran Dyraniadau Tai, rhestrir dyraniadau ochr yn ochr ag eraill ar yr un lefel yn yr hierarchaeth aneddiadau (gweler polisi SP12 *Yr Hierarchaeth Aneddiadau*). Ar bob lefel, rhestrir dyraniadau yn ôl anheddiad yn nhrefn yr wyddor.
- 1.5 Darparwyd gwybodaeth a chanllawiau a gynhwysir yn y Canllawiau oddi wrth y cyrff rhanddeiliad canlynol:
 - Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach)
 - Dŵr Cymru Welsh Water
 - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
 - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach)
 - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
 - Yr Asiantaeth Cefnfyrd
 - Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru
 - Cyngor Sir Penfro (Is-Adran Ffyrd a Thrafnidiaeth)

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

- 1.6 Casglwyd yr wybodaeth a gynhwysir yn y Canllawiau hyn yn 2010 a'i ddiweddarau yn 2012 ac, yn dilyn ymgynghori, yn 2013. Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth yn 2015 a 2016, am dirwedd, y Gymraeg, manau agored a rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru. Mae gwybodaeth am hanes cynllunio wedi'i diweddarau hefyd i ystyried ceisiadau a phenderfyniadau ar ddechrau Tachwedd 2016. Heb ragfarnu materion, mae Cyngor Sir Penfro yn cadw'r hawl i ofyn am fanylion pellach ac am gyfraniadau tuag at leddfu materion nad sydd wedi eu crybwyll yn y Canllawiau hyn ac fe fydd yn rhaid i agweddau megis trafndiaeth gynaliadwy ac isadeiledd gael eu hystyried adeg cais cynllunio. Bydd amgylchiadau economaidd adeg datblygu safle yn cael dylanwad ar ba waith datblygu sy'n hyfyw yn ariannol yr adeg honno. Gall cyfyngiadau safle-benodol a'r seilwaith sydd ar gael newid a dylai datblygwyr gysylltu â'r asiantaethau perthnasol i gadarnhau'r sefyllfa bresennol a chynnal eu hymchwiliadau eu hunain o'r safle. Dylai datblygwyr hefyd gyfeirio at y Cynllun Trafndiaeth Lleol (CTLI) i sicrhau nad yw datblygiad yn amharu ei esgoriad a lle'n briodol bydd angen i'r datblygiad hwyluso ei esgoriad
- 1.7 Templed o'r tablau safle sydd i'w cael yn y ddogfen hon yw Tabl 1. Mae'r templed yn dangos y math o wybodaeth sydd ym mhob adran gan gynnwys materion a ffyrdd o ymateb iddynt.

Tabl 1 Cofnod safle templed

<p>Enw'r safle (Cyfeirnod unigryw yn datgan ei leoliad a'r math o ddatblygiad a neilltuwyd i'r safle)</p> <p><i>Dylai datblygwyr ddyfynnu hwn, a'r cyfeirnod, mewn unrhyw drafodaeth â'r Awdurdod Cynllunio.</i></p>
<p>Manylion ynghylch y safle</p> <p><i>Gan gynnwys: maint y safle (Ha), lleiafswm yr anheddau, ar gyfer beth y neilltuwyd y safle, defnydd arfaethedig neu ddsbarth defnydd, trwch y datblygiad (Dph) ac a yw'r safle'n dir glas neu'n dir a ddatblygwyd o'r blaen.</i></p>
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p><i>Disgrifiad cryno o'r safle a'i amgylchoedd, gan gynnwys graddfa'r datblygiadau o amgylch.</i></p>
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p><i>Unrhyw hanes cynllunio perthnasol fel yr oedd pethau ar 30^{ain} Tachwedd 2012.</i></p>

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
<i>Disgrifiad o unrhyw gyfyngiadau a pheirianwaith i'w goresgyn.</i>		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	<i>Mae llythyren (A - H) yn nodi'r effaith y gall y datblygiad ei gael ar y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff lleol (GTDG). Ceir eglurhad o'r llythrennau hyn, a ddarparwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water, yn adran 10.</i>	
Carthffosiaeth	<i>Bydd gwybodaeth yn ymddangos fan hyn os gwyddys bod y system garthffosiaeth leol yn gyfyngus. Fel y nodwyd uchod, mae llythyren (A-H) yn nodi natur y mater ynglŷn â charthffosiaeth. Caiff y rhain eu hegluro yn Adran 10.</i>	
Dŵr	<i>Gwybodaeth am y cyflenwad dŵr a nodwyd gan llythyren (A-H), ynghyd â gwybodaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn flaenorol) mewn perthynas â phresenoldeb cyrsiau dŵr ar y safle ac effeithiau posib datblygu ar ansawdd y dŵr.</i>	

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Llifogydd	<p><i>Cofnodir gwybodaeth ar agweddau amrywiol llifogydd, yn cynnwys:</i></p> <p><i>i) Safleoedd o fewn ardaloedd mewn risg o lifogydd a ddangosir gan Fapiau Cyngor Datblygu neu ar Fapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn flaenorol).</i></p> <p><i>ii) Dyraniadau lle ystyrir bod 10% o leiaf o ardal y safle mewn risg 'canolradd' neu 'uwch' o lifogydd dŵr arwyneb, yn defnyddio Mapiau Llifogydd ar gyfer Dŵr Arwyneb. Categori risg a ddiffinnir gan y Cyngor, yn defnyddio canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn flaenorol). (Gweler papur cefndir CDLI: Asesu Llifogydd Dŵr Arwyneb).</i></p> <p><i>iii) Gwybodaeth o astudiaethau llifogydd lleol.</i></p> <p><i>iv) Lle y nodwyd y bydd angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd</i></p> <p><i>Rhaid ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i mewn i gynlluniau datblygu newydd, lle y bo'n ymarferol.</i></p>	
Trafnidiaeth	<p><i>Gwybodaeth a ddarperir gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd neu isadran trafndiaeth y Cyngor Sir ynglŷn â chapasiti a</i></p>	

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	<i>chyfyngiadau rhwydweithiau ffyrdd, a/neu fynediad i'r safle.</i>	
Tir Halogedig	<i>Unrhyw wybodaeth berthnasol ynghylch tir halogedig.</i>	
Trydan	<i>Gwybodaeth ar botensial i gysylltu i gyflenwad trydan.</i>	
Arall	<i>Nodiadau ychwanegol cysylltiedig â'r safle, gan gynnwys canllawiau ar faterion fel darparu manau agored a chyflwyno datblygiadau yn raddol mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn sensitif neu lle ceir problemau capasiti trin dŵr gwastraff difrifol.</i>	

2 Ystyriaethau sy'n berthnasol i bob safle

- 2.1 Bydd yn ofynnol i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu safle a neilltuwyd fodloni gofynion polisiâu perthnasol y CDLI. Golyga hyn y bydd rhaid i ymgeiswyr ystyried materion megis mynediad, amwynder, dyluniad ac effeithlonrwydd adnoddau. Dylai darpar ddatblygwyr gyfeirio at bolisiâu GN1 - GN4 y CDLI ynghyd â phob polisi perthnasol arall a gynhwysir yn y CDLI.
- 2.2 Dylai ymgeiswyr gyfeirio at ddarnau eraill o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n berthnasol i'w safle cais. Caiff Canllawiau newydd eu mabwysiadu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol, neu'n fuan wedi hynny yn achos Canllawiau presennol sy'n cael eu diweddarau i adlewyrchu polisiâu CDLI. Bydd rhestr o Ganllawiau mabwysiedig Cyngor Sir Penfro ar gael ar wefan y Cyngor ac ar gais.
- 2.3 Gall fod angen gwybodaeth benodol yn rhan o'r broses dilysu cyn y bydd modd penderfynu ar y cais. Er enghraifft, mae angen gwybodaeth o arolygon ar lawer o geisiadau cynllunio; gall fod angen gwneud gwaith arolygu ar adeg benodol o'r flwyddyn neu o dan amodau penodol a dylid cynnwys yr ystyriaethau hyn yn amserlen y prosiect.
- 2.4 Mas Sir Benfro yn gynefin i lawer o rywogaethau a warchodir a neilltuir rhannau mawr o'r sir ar gyfer diogelu a gwarchod natur. Fe all datblygiad ymhob rhan o Sir Benfro bron effeithio ar ffyniant rhywogaethau gwarchodedig, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP), a choetiroedd lled-naturiol hynafol, a rhaid ystyried yn ofalus materion gwarchod natur all godi cyn cyflwyno cais cynllunio. Felly, nid yw'r CCA yn pennu safleoedd arbennig lle dylid lleihau a lliniaru'r effaith ar rywogaethau gwarchodedig, sy'n ystyriaeth ar gyfer holl safleoedd datblygu – gwelwch y CCA Bioamrywiaeth i gael rhagor o wybodaeth.
- 2.5 Cyfeirir at Gynllun Rheoli Asedau (AMP) presennol Dŵr Cymru fel AMP 6. Mae hwn yn rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020, ond mae'n ddogfen heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, trefnwyd bod rhai elfennau o'i chynnwys ar gael trwy ohebiaeth rhwng y Cyngor a Dŵr Cymru. Yn benodol, mae hwn yn cyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd i gyd-fynd â pharatoi'r Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) blynyddol. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon. Mewn rhai achosion, bydd seilwaith draenio yn cael ei raglennu gan Ddŵr Cymru, mewn achosion eraill bydd rhaid i ddatblygwyr ariannu gwelliannau angenrheidiol eu hunain.
- 2.6 Yn Awst 2016, darparodd Dŵr Cymru y cyngor cyffredinol canlynol:

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

'Pe bai unrhyw ddatblygwr yn dymuno datblygu safle cyn ein gwelliannau rheoleiddiol yn y dyfodol, dylent gysylltu â ni mor gynnar ag y bo modd i gael cyngor cyn-cynllunio. Bydd hyn yn ein galluogi ni i fwrw ymlaen ag astudiaeth ddichonoldeb o'r GTDG (gwaith trin dŵr gwastraff) ar eu rhan, a fydd yn esbonio'r gwelliannau gofynnol ar gyfer eu safle, a gallant wedyn ariannu'r gwelliannau eu hunain trwy ddarpariaethau Cytundeb adran 106 (y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990).'

- 2.7 Rhaid ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) mewn cynlluniau datblygu ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- 2.8 Mae rhai safleoedd datblygu yn cael eu croesi gan, neu wedi'u lleoli'n agos at, brif afonydd neu gyrsiau dŵr arferol. I ddiogelu coridorau'r cyrsiau dŵr yr effeithir arnynt ac i ddarparu mynediad at ddibenion cynnal a chadw, bydd angen lleiniau clustogi 3m i gyrsiau dŵr arferol lleiniau clustogi 7m i brif afonydd (ym mhob achos, wedi'u mesur o frig pob glan,neu, lle y bo'n briodol, gwaelod tua'r tir unrhyw arglawdd), lle y nodir agosrwydd o'r fath, ac yn amodol ar ystyried unrhyw amrywiadau gan naill ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu beirianwyr draenio'r Cyngor, ar adeg gwneud cais. Ni ddylai adeiladau amharu o fewn lleiniau clustogi. Bu ymgynghori diweddar ar gynigion ar gyfer is-ddeddfau draenio model i Gymru. Mae'r rhain yn cynnig lledau lleiniau clustogi gwahanol i'r rheiny y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon. Pan fyddant wedi'u cwblhau, awdurdodau lleol unigol fydd i benderfynu p'un ai i gyflwyno'r is-ddeddfau hyn.
- 2.9 Mae'r gofynion ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio manau agored wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio. Bydd p'un a oes angen darpariaeth man agored, naill ai ar y safle neu oddi ar y safle, yn dibynnu ar:
- Lefel ac ansawdd cyfleusterau mewn ardal;
 - Pellter datblygiad oddi wrth unrhyw ddarpariaeth bresennol; a
 - Nifer yr anheddau arfaethedig.
- 2.10 Lle mae coed neu berthi o fewn a / neu yn ffurfio ffin safleoedd dynodedig, dylid cadw'r rhain o fewn cynlluniau datblygu lle bynnag y bo modd.
- 2.11 Mae'r sylwadau safle-benodol o fewn y ddogfen hon yn cynnig arweiniad yn unig. Efallai y bydd angen gwyro o'r canllawiau hyn yng ngoleuni tystiolaeth sydd ar gael ar adeg paratoi a chloriannu cais.

3 Ardaloedd Strategol

- 3.1 Mae ardal strategol wedi ei chlustnodi ar y Map Cynigion i ddiffinio'n ofodol y lleoedd hynny lle mae SP2 (Datblygu yn ymwneud â Phorthladdoedd ac Ynni) yn berthnasol. Oherwydd sensitifedd amgylcheddol ardal porthladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwaun o ran eu pwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol, yn enwedig mewn cysylltiad ag Aberdaugleddau, efallai y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar lefel prosiect i gefnogi ceisiadau. O ystyried agosrwydd y ffiniau i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP) a'r potensial ar gyfer goblygiadau traws ffiniol, dylai unrhyw ddatblygiadau arfaethedig o fewn ardal y safle strategol gael eu hasesu hefyd am effeithiau ar y PCAP a'i ddibenion statudol.

4. Dyraniadau Cyflogaeth

- 4.1 Diffinnir dyraniadau cyflogaeth naill ai yn 'Strategol' neu'n 'Lleol'. Rhestrir dyraniadau cyflogaeth strategol yn SP3, *Gofynion Tir Cyflogaeth*, a rhestrir dyraniadau cyflogaeth lleol yn GN5, *Dyraniadau Cyflogaeth*.

Dyraniadau Cyflogaeth Strategol

Blackbridge, Aberdaugleddau (S/EMP/086/LDP/01)		
33.45 Ha	B1, B2, B8	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen/Tir Glas
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r neilltuad tir cyflogaeth strategol hwn i'r dwyrain o Aberdaugleddau. Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw rhan y safle sydd ger y lan, tra bo'r gweddill yn dir glas. I'r gorllewin o'r safle mae Castle Pill a thref Aberdaugleddau, tua'r de mae Aber Cleddau, i'r dwyrain mae Petro-Plus ag a Dragon LNG a thua'r gogledd mae stad Blackbridge a chefn gwlad agored. Bydd mynediad i'r safle'n bennaf gyda llong o Aber Cleddau, ond bydd mynediad ffordd newydd yn cael ei greu ar y cyd â'r datblygiad, yn cynnwys ffordd osgoi Waterston a ffordd newydd i'r safle o'r B4325.</p>		
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>08/0368/PA – Castle Pill – datblygiad preswyl ac ati' – cymeradwywyd yn amodol 22/12/11</p> <p>06/0335/PA – Waterston i Orllewin Pennar – piblinell nwy danddaearol a gosodiadau cysylltiedig ar ben tir – cymeradwywyd yn amodol 13/02/09</p> <p>03/1608/PA – Castle Pill – amrywiad o amodau 3 a 4 o 97/0202/PA – cymeradwywyd yn amodol 14/06/04</p> <p>02/0380/PA – hen safle Storfa Arfau y Llynges Frenhinol – storio silt wedi'i garthu – cymeradwywyd yn amodol 10/09/02</p> <p>97/0202/PA – Castle Pill – datblygiad preswyl (72 o anheddau), marina â lle i 200 o gychod, maes parcio, ac ati' – cymeradwywyd yn amodol 23/04/01</p> <p>96/1089/PA - hen safle Storfa Arfau y Llynges Frenhinol - newid defnydd o neuadd chwaraeon i felin ail-rolio dur gwrthstaen yn cael ei rollo'n boeth – cymeradwywyd yn amodol 01/08/97 (wedi'i weithredu, ond daeth y defnydd a ganiatawyd i ben rai blynyddoedd yn ôl)</p> <p>96/0491/PA – Ward's Yard – codi lefelau tir trwy fewnlenwi a gweithrediadau peirianeg cysylltiedig – cymeradwywyd yn amodol 28/02/97</p>		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Dim GTDG ar hyn o bryd	-
Carthffosiaeth	Nid oes unrhyw garthffosydd cyhoeddus.	Bydd angen darparu gwaith trin preifat (gwelwch adran 12 cod Ci) neu mae angen carthffosiaeth helaeth a drud.
Dŵr	Nid oes prif bibelli dŵr yn yr ardal hon.	Bydd angen prif bibelli dŵr helaeth oddi ar y safle i wasanaethu'r neilltuad hwn.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
Llifogydd	Ardal fychan o'r safle o fewn cylchfa C2 y Mapiau Cyngor Datblygu & cylchfa llifogydd 2 & 3 ar fapiau'r AAC (CNC bellach).	Bydd Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd yn ofynnol.
Trafnidiaeth	Pryderon SWTRA ynghylch ciwio ar yr A4076 (T). Yn effeithio ar B4325 Coombs Road a'i chyffordd â'r A4076 (T). Safle mawr gyda mannau mynediad presennol cyfyngedig.	Ffordd fynediad arfaethedig o'r gogledd-ddwyrain (Gwelliant Mynediad Blackbridge a ffordd osgoi Waterston). Mae posibilrwydd cyswllt rheilffordd o Aberdaugleddau (sylwch fod hyn yn mynd drwy HSG/086/00318) yn annhebygol o fod yn ymarferol. Mae rheilffordd ddiwydiannol hefyd yn gwasanaethu datblygiadau diwydiannol presennol i'r de o Waterston. Aseiad / gwelliant ffordd o'r cyswllt ar hyd Coombs Road a'i chyffordd â'r A4076(T)
Tir Halogedig	Mae rhai rhannau o safle Blackbridge wedi eu heffeithio gan halogiad. Fodd bynnag, efallai y bydd materion halogiad cysylltiedig â'r adeiladau oedd gynt ar y safle wedi cael eu datrys ar adeg eu dymchwel.	Rhaid cael aseiad risg rhagarweiniol o leiaf.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.
	Mae cilfach Castle Pill yn nodwedd tirwedd werthfawr a chymharol ddigyffwrdd. Mae'n gallu cefnogi potensial cynyddol y dref, y ddyfrffordd a'r llwybr arfordirol o ran hamdden ac adloniant. Mae'n	Sicrhau cadw'r traethlin naturiol, y potensial ar gyfer mynediad cylchol o amgylch y gilfach, a gwarchod lleoliad yr Ardd Hanesyddol.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	cysylltu â lleiniau helaeth o Goetir Hynafol gwarchoddedig, a Gardd Hanesyddol.	
	Mae'r safle oddi fewn i barthau diogelu Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Waterston SemLogistics a Dragon LNG.	Mae angen ymgynghori.
	Mae piblinell nwy yn croesi'r safle.	Mae angen ymgynghori â'r gwasanaeth cyhoeddus.
	Effaith ar amwynder deiliaid cyfagos.	Gan ddibynnu ar fanylion y defnyddiwr olaf, efallai y bydd angen rhwystrau acwstig a gweledol ar y cyd â datblygiad y safle, er mwyn gwarchod amwynderau defnyddwyr cyfagos.
	Mae'r morglawdd yn dadfeilio.	Bydd gofyn adfer y morglawdd ar y cyd ag ailddatblygu'r safle.

Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro (S/EMP/096/00001)

22.38 Ha	B1	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen/Tir Glas
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Y neilltuad tir cyflogaeth strategol hwn yw tir yn Nwyrain Llanion, Doc Penfro, rhan ohono'n dir a ddatblygwyd o'r blaen, a'r gweddill yn dir glas. Mae Canolfan Arloesi'r Bont, canolfannau ffonio Pont Cleddau, y Ganolfan E-fasnach a'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr yn y rhan hon o Ddoc Penfro eisoes. I'r gorllewin o'r safle mae ffordd yr A477 a datblygiad tai Llanion Hill, tua'r de mae Stad Ddiwydiannol Waterloo, tra bo Aber Cleddau a Cosheston Pill i'r dwyrain ac i'r gogledd, gan gynnwys llain o goetir pwysig. Mae mynediad ffyrdd i'r safle ar gael eisoes o ddau le, o'r A477 yn Warrior Way ac o gylchfan Pont Cleddau.</p>		
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>15/0475/PA – tir yn ymyl Warrior Way – cyfadeilad swyddfeydd modwlar – cymeradwywyd yn amodol 08/09/15</p> <p>14/0219/PA – tir i'r gogledd o Warrior Way – adeilad diwydiannol ffrâm porthol – cymeradwywyd yn amodol 06/08/14</p> <p>03/1486/PA – Parc Busnes Pont Cleddau – defnydd swyddfa B1 i ddechrau busnes gyda chyfleusterau ymchwil prifysgol (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 29/04/04</p> <p>01/0171/PA – Parc Busnes Pont Cleddau – adeiladu ffordd gyswllt i</p>		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>wasanaethu'r parc busnes (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 26/07/01 00/0530/PA – Parc Busnes Pont Cleddau – maes parcio dros dro gyda goleuadau cysylltiedig – cymeradwywyd yn amodol 09/11/00 96/0796/PA – Parc Busnes Pont Cleddau – Canolfan Mileniwm (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 05/12/96</p>		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Yn y pen draw bydd carthion o'r neilltuad hwn yn cael eu trin yn GTDG Doc Penfro sy'n gallu trin y carthion o'r neilltuad hwn. Os bydd elifiant masnachol yn deillio o'r neilltuad hwn, mae angen caniatâd Dŵr Cymru dan Adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.	-
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn i ateb y galwadau all godi o'r safle hwn.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
	Mae'r carthffosydd cyhoeddus agosaf yn Waterloo Road (carthffos 150mm) ac i'r de o'r neilltuad hwn (carthffos 225mm). Mae'r llifogydd o'r garthffos 150mm yn cael sylw ar hyn o bryd ac yn cael eu gwella dan AMP 5.	Mae'r ddwy garthffos yn draenio i Orsaf Pwmpio Carthion (SPS) Waterloo. Oherwydd natur a maint y neilltuad hwn yr argymhelliad yw asesu ble gall y safle gysylltu, ynghyd ag asesiad o'r SPS i benderfynu a oes angen unrhyw welliant. Mae modd gwneud yr asesiad hwn dan ddarpariaethau atafaelu carthffosydd Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y diwygiwyd).
Dŵr	Mae'r prif bibelli dŵr 500mm a 160mm o dryfesur yn agos at y neilltuad hwn. Fodd bynnag, fe all hyn olygu darparu prif gyflenwad oddi ar y safle gan	Mae angen mesurau i ddiogelu'r prif gyflenwad naill ai ar ffurf hawddfrait, sy'n atal datblygiad ger yr ased cyhoeddus, neu wyro'r ased ar draul y datblygwr.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	ddibynnu ar yr union alwadau o ddatblygiad o'r fath natur a maint.	
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Mae mynediad ffordd ar gael o gylchfan Pont Cleddau a Waterloo. Pryderon SWTRA ynghylch ciwio ar yr A477 (T), yn enwedig ar Gylchfan Waterloo a Chyffordd Ferry Lane.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mae angen cylchoedd goleuadau traffig ychwanegol ac addasiadau i'r goleuadau.
Tir Halogedig	Fe all fod Ffynonellau Llygrol ar neu ger y safle yn safle blaenorol MOD yn Llanion Hill, Ilunwyr dur, Ledwood Engineering Ltd, Depo Tanciau Olew Dwyrain Llanion, safle tirlenwi Llanion Hill, safle tirlenwi Waterloo, Waterloo Metals – G Jones (30m i'r de). Mae'n debygol y bydd llawer o dir gwneud o hen weithfeydd y dociau, dros 5.5m (a gofnodwyd o hen logiau ar y safle).	Fel rhan o unrhyw gais cynllunio, bydd gofyniad i nodweddu'r safle'n well (astudiaeth ddesg), llunio model cysyniadol o'r safle a gwneud archwiliad tir ymwithol gan gynnwys Asesiad Peryglon Haen 1. Mae'n debygol y bydd modd cyfiawnhau DQRA, cloriannu dewisiadau adferol a strategaeth gwaith adfer hefyd.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	Trydan: WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Parc Busnes Llwyn Helyg, Hwlfordd (S/EMP/040/00001)

20.61 Ha	B1	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw'r neilltuad tir cyflogaeth strategol hwn yn bennaf. Mae i'r gogledd o dref Hwlfordd ac i'r de o Faes Awyr Hwlfordd. Mae peth datblygiad presennol yn y cylch, cysylltiedig â chyflogaeth yn bennaf, ond heb fod yn gyfan gwbl felly. Mae'r maes awyr tua'r gogledd, gyda chefn gwlad agored a datblygiad adwerthu tua'r gorllewin, neilltuad tir arall ar gyfer cyflogaeth i'r dwyrain a thref Hwlfordd tua'r de.</p>		

Hanes cynllunio perthnasol

16/0433/PA – Tir i'r gorllewin o Ffordd Llwynhelyg/Withybush Road – amrywiad ar amod 2 o 15/0307/PA i ganiatáu dyluniad diwygiedig i adeilad yr eglwys – cymeradwywyd yn amodol 31/08/16

16/0060/PA – Tir ym Maes y Sioe Sirol, Ffordd Llwynhelyg – newid defnydd a ffens cysylltiedig 3m mewn uchder, i ffurfio canolfan gweithgareddau – gwrthodwyd 26/07/16

15/1320/PA – Tir i'r gorllewin o Ffordd Llwynhelyg – amrywiad ar amod 2 o 15/0307/PA, i ganiatáu dyluniad diwygiedig i adeilad yr eglwys – 26/05/16

15/1237/PA – Plot 2, Parc Busnes Ystad y Gorllewin, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – uned storio ffrâm dur ar gyfer busnes ffenestri UPVC – cymeradwywyd yn amodol 21/04/16

15/1084/PA – Plot 1, Parc Busnes Gorllewin Llwynhelyg – canolfan ffitrwydd dan do – cymeradwywyd yn amodol 26/05/16

15/0463/DC – Ffordd Llwynhelyg – cyflawni amodau 2 a 11 o ganiatâd cynllunio 13/0682/PA – wedi'i wrthod yn rhannol, cymeradwywyd yn rhannol 22/09/15

15/0307/PA – Ffordd Llwynhelyg – cais adran 73 i ddileu amodau 3, 4 a 5 o ganiatâd cynllunio 13/0682/PA, cymeradwywyd yn amodol 24/08/15

14/0509/PA – tir i'r gogledd o ddepo bysiau First, Ffordd Llwynhelyg – uned fasnachol newydd (defnydd dosbarth B8) – cymeradwywyd yn amodol 23/10/14

14/0373/PA – tir i'r de o Ystad Fasnachu Brooke, Ffordd Llwynhelyg – ffens diogelwch a gosod portacabin i'w ddefnyddio fel caffi – cymeradwywyd yn amodol 06/10/14

13/0682/PA – i'r gorllewin o Ffordd Llwynhelyg – man addoli gyda chyfleusterau cymunedol ategol – cymeradwywyd yn amodol 09/04/14

11/0458/PA – tir ar Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – Canolfan Gymunedol Grefyddol (materion a gedwir yn ôl) – cymeradwywyd yn amodol 10/10/11

10/0173/PA – tir ar Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – Canolfan Gymunedol Grefyddol (amlinellol) - cymeradwywyd yn amodol 06/10/10

07/0981/PA – M & S Engineering Services, Ystad Brook, Ffordd Llwynhelyg, Hwlfordd – estyniad i'r gweithdy (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 12/12/07

07/0609/PA – Home & Garden, Ffordd Llwynhelyg, Parc Busnes Llwynhelyg – newid defnydd o uned ddiwydiannol i gaffi ac uned ffisiotherapi (llawn) – gwrthodwyd 27/09/07

06/1164/PA – Oddi ar yr A.40 a Ffordd Llwynhelyg, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg (amlinellol) – gwerthu ceir, B1, B2 a defnyddiau B8 – cymeradwywyd yn amodol 27/07/07

05/1495/PA – tir gerllaw Warws Home & Garden, Ffordd Llwynhelyg, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – unedau diwydiannol ysgafn newydd (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 10/04/06

03/1554/PA – Tir gerllaw Withybush Tyres, Ffordd Llwynhelyg – ardal gwerthu ceir (ôl-weithredol) (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 19/05/04

99/0129/PA – Tir Gyferbyn ag Ystad Brook, Llwynhelyg – depo teiars, yn cynnwys adeilad ffrâm porthol (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 18/06/99

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>98/0552/PA – Ystad Fasnachu Llwynhelyg, Heol Abergwaun, Hwlfordd – mynediad newydd (caniatâd amlinellol 98/0245/PA), datblygiad diwydiannol a mynediad priffordd (materion a gedwir yn ôl) – cymeradwywyd yn amodol 30/11/98</p> <p>98/0245/PA – Ystad Fasnachu Llwynhelyg - datblygiad diwydiannol a mynediad priffordd (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 09/09/98</p> <p>96/1114/PA – Ystad Brook, Llwynhelyg – warws ar gyfer marchnad ffrwythau a llysiau – cymeradwywyd yn amodol 04/04/97</p>		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Capasiti cyfyngedig.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B).
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch gallu'r carthffosydd i gludo carthion. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn yn ddigon mawr i allu ateb y galwadau o'r safle hwn.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Mae cwrs dŵr cyffredin yn llifo drwy'r safle (gyda gollyngiad gweithredol).	Gweler paragraff 2.7.
	Mae mân ddyfrhaen dan y safle.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Dim materion	-
Tir Halogedig	Tir halog.	Bydd angen asesiad risg rhagarweiniol.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Agosrwydd at Faes Awyr Hwlfordd.	Mae gofynion diogelu yn ymwneud â Maes Awyr Hwlfordd.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Mae piblinell nwy yn croesi'r safle.	Mae angen ymgynghori â'r gwasanaeth cyhoeddus.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Cyn Safle RNAD, Trecwn (S/EMP/136/00001)		
21.11 Ha	B1, B2, B8	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Y neilltuad tir cyflogaeth strategol hwn yw tir a ddatblygwyd o'r blaen ac a ddefnyddiwyd fel Depo Arfau'r Llynges Frenhinol. Cadwyd nifer o adeiladau diwydiannol mawr ar y safle a'u cynnal i hwyluso'u hailddefnyddio yn y pen draw. Mae'r neilltuad yn cynrychioli cyfran fechan o'r safle RNAD gwreiddiol, gyda gweddill y safle'n cael ei drin fel cefn gwlad agored at ddibenion cynllunio datblygiad ond yn cynnwys nifer o dwnelau i'r llechwedd a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel storfa. Mae pentref Trecwn gerllaw, gyda threfi Abergwaun ac Wdig ychydig filltiroedd tua'r gogledd. Fodd bynnag, mae amgylchedd y safle o natur wledig iawn, gydag ardaloedd coetir pwysig gerllaw.</p>		
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>11/0462/PA - hen safle Storfa Arfau y Llynges Frenhinol, Trecwn - adeiladu a gweithredu gwaith brigo sy'n rhedeg ar ddiesel (llawn) - cymeradwywyd yn amodol 04/09/12</p> <p>03/1492/PA - hen safle Storfa Arfau y Llynges Frenhinol, Trecwn - newid defnydd Storfa Arfau wag i ddsbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 gyda defnydd o fannau agored at ddibenion hamdden (llawn) - cymeradwywyd yn amodol 30/04/04</p>		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	No GTDG at present.	Gwelwch isod.
Carthffosiaeth	Nid oes unrhyw garthffosydd cyhoeddus. Mae carthffosydd Dŵr Cymru i'r gorllewin o'r safle hwn gan wasanaethu dim ond y stad fach o dai.	Bydd angen darparu gwaith trin bach preifat (gwelwch adran 12 cod Ci). Byddai angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig gyd-fynd â darpariaethau Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99 - 'Gofynion cynllunio o ran defnyddio carthffosiaeth heblaw prif gyflenwad sy'n ymgorffori tanciau carthion mewn datblygiad newydd'.
Dŵr	Nid oes prif gyflenwad dŵr cyhoeddus gerllaw'r safle hwn.	-

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddaru, Rhagfyr 2016

Llifogydd	Mae rhannau o'r safle oddi fewn i barth llifogydd C2 a pharthau llifogydd 2 & 3 mapiau AA (CNC bellach).	Bydd Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn ofynnol gydag.
	Caiff mwy na 10% o arwynebedd y safle ei ystyried yn 'fwy' agored i lifogydd dŵr arwyneb. Diffiniwyd dosbarth y perygl gan y Cyngor, o ganllawiau EAW (CNC bellach). Gwelwch bapur cefndirol y CDLI: Asesu Llifogydd Dŵr Arwyneb.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw.
Trafnidiaeth	Gwellwyd cyflwr y ffordd fynediad (breifat) o'r A40 yn ddiweddar. Bydd traffig yn effeithio ar ddwy gyffordd ar gefnffordd yr A40 yng Nghilau-wen a Threcŵn. Mae cyffordd islaw'r safon gyda'r A40 (T). Mae posibilrwydd adfer y cyswllt rheilffordd.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mae angen uwchraddio'r ffordd fynediad yn sylweddol. Mae angen uwchraddio'r gyffordd (e.e. tir ar gyfer troi i'r dde).
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl.	Bydd angen asesiad risg rhagarweiniol. Bydd angen unioni unrhyw broblemau halogi a ddaw i'r amlwg ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Dyraniadau Cyflogaeth Lleol

Estyniad Hufenfa Pont Fadlen (EMP/040/00003)		
5.13 Ha	B1, B2, B8	Tir Glas
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer cyflogaeth am y terfyn â hufenfa Pont Fadlen ac o fewn terfynau Merlins Brook a Freeman's Way tua'r gogledd, yr hufenfa tua'r gorllewin, gwaith trin carthion i'r dwyrain a rheilffordd a datblygiad</p>		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

preswyl tua'r de. Mae mynediad ffordd ar gael o Ffordd Burton, yn union i'r de o gylchfan Pont Fadlen, er y gallai hyn ofyn uwchraddio ar y cyd â datblygiad newydd. Er ei fod ar bwys rheilffordd, nid oes unrhyw gysylltiad rheilffordd â'r safle.

Hanes cynllunio perthnasol

12/1073/PA – Cwmni Caws First Milk, Heol Penfro, Merlins Bridge – adeiladu gwaith trin elifion, piblinell danddaearol a gollwng – cymeradwywyd yn amodol 08/07/13

06/1272/PA – Cwmni Caws First Milk, Heol Penfro, Merlins Bridge – Gwaith Trin Elifion (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 08/05/07

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Dim materion	-
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Mae Cylchfan Pont Fadlen ar yr A4076 (T) yn orlawn yn enwedig ar gyfnodau brig er na ddylai atal datblygiad yn amodol ar gytuno rheolaethau amser.	Efallai y bydd angen i SWTRA asesu'r effaith ar gylchfan newydd.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl.	Bydd angen asesiad risg rhagarweiniol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Mae'n bosibl y bydd angen y safle ar gyfer cyfleuster Treulydd Anaerobig.	-
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Y Llwyn Helyg i'r Gogledd o'r Parc Busnes (EMP/040/00005)

6.09 Ha	B1, B2, B8	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen
Disgrifiad o'r safle		
Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer cyflogaeth ym mhen gogleddol Stad		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Ddiwydiannol y Llwyn Helyg, mewn ardal sy'n llawn adeiladau diwydiannol ac amaethyddol, gan gynnwys rhai Cymdeithas Amaethyddol Sir Benfro (PAS), er bod defnyddiau eraill yn gymysg â'r rhain. I'r gorllewin ac i'r de mae adeiladau amrywiol diwydiannol a PAS, ynghyd ag ychydig breswylfeydd preifat. Tua'r gogledd mae cwrs dŵr ac adeiladau diwydiannol ychwanegol ac i'r dwyrain mae nant sydd, maes o law, yn llifo i Cartlett Brook a Choedydd y Llwyn Helyg.

Hanes cynllunio perthnasol

13/0419/PA - tir gerllaw Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg - amrywiad ar amod 3 ar ganiatâd cynllunio 05/0849/PA (estyniad amser) - cymeradwywyd yn amodol 14/10/13

08/1048/PA – Withybush Lodge, Ffordd Llwynhelyg, Hwlfordd – estyniad i lawr caled i gydymffurfio â gofynion prawf Cerbydau Nwyddau Trwm y DSA (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 12/02/09

08/0297/PA – 14 ac 14A, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – caniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer defnydd fel iard cludo nwyddau / cludiant (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 05/08/08

05/0849/PA - tir gerllaw Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg - newid defnydd i B1, B2 a B8, heol ystadau, ac ati' (amlinellol) - cymeradwywyd yn amodol 12/08/10

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Fe all y GTDG drin y carthion cartref ond bydd unrhyw gynnig i ollwng elifiant masnachol angen caniatâd Dŵr Cymru dan Adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.	-
Carthffosiaeth	Mae'r garthffos 225mm ar derfyn deheuol y safle hwn. Mae carthffos 225mm ar wahân yn croesi'r safle i'r dwyrain ac mae'r ddwy garthffos yn draenio i Orsaf Bwmpio Carthion (SPS) Cryndal. Fe all yr orsaf bwmpio hon drin y carthion cartref o'r neilltuad hwn ond bydd unrhyw gynnig i ollwng elifiant masnachol angen caniatâd Dŵr Cymru dan Adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.	-
Dŵr	Mae'r brif bibell ddŵr 6	Posibilrwydd trafodaeth gyda

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	modfedd o dryfesur yn Ffordd y Llwyn Helyg yn ddigonol i ateb galwadau cartrefi'r neilltuad hwn ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn gofyn am ddŵr 'diwydiannol', bydd angen i ddarpar ddefnyddwyr olaf drafod eu gofynion gyda Dŵr Cymru.	Dŵr Cymru.
	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae dyrhaen dan y safle.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.
Llifogydd	Caiff mwy na 10% o arwynebedd y safle ei ystyried yn 'gymedrol' agored i lifogydd dŵr arwyneb. Diffiniwyd dosbarth y perygl gan y Cyngor, o ganllawiau EAW (CNC bellach). Gwelwch bapur cefndirol y CDLI: Asesu Llifogydd Dŵr Arwyneb.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw.
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd: dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mân newidiadau i Gylchfan y Llwyn Helyg.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl.	Bydd angen asesiad risg rhagarweiniol.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Arall	Agoswydd at Faes Awyr Hwlfordd.	Mae gofynion diogelu yn ymwneud â Maes Awyr Hwlfordd.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Y Llwyn Helyg i'r Dwyrain o'r Parc Busnes (EMP/040/00004)

15.38 Ha	B1, B2, B8	Tir Glas
----------	------------	----------

Disgrifiad o'r safle

Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer cyflogaeth ar dir glas yn bennaf, er bod stad ddiwydiannol fach bresennol o fewn ei derfynau. I'r gorllewin ac i'r gogledd mae datblygiadau diwydiannol ychwanegol ac fe neilltuwyd tiroedd cyflogaeth eraill, gyda defnyddiau eraill i'w cael hefyd gan gynnwys preswyl ac ystafelloedd arddangos ceir. I'r dwyrain mae nant sy'n llifo i Cartlett Brook a thir amaethyddol ac i'r de mae rhagor o dir amaethyddol.

Hanes cynllunio perthnasol

16/0769/PA – uned 18A, Ystad Fasnachu Llwynhelyg, Ffordd Llwynhelyg – newid defnydd uned wag i ganolfan gofalu am gŵn – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016

16/0490/PA – Ystad Fasnachu Llwynhelyg, Ffordd Llwynhelyg – unedau arfaethedig ar gyfer busnesau sy'n cychwyn (dosbarth defnydd B1) – cymeradwywyd yn amodol 30/09/16

16/0025/PA – Tir i'r de o Dan-y-Coed, Ffordd Llwynhelyg – adeilad storfa oer – cymeradwywyd yn amodol 28/06/16

15/0185/PA - Puffin Produce, Ffordd Llwynhelyg - cyfarpar, peiriannau a chladin i hwyluso storfa oer ychwanegol yn yr uned bresennol - cymeradwywyd yn amodol 26/06/15

13/0800/PA – i'r gogledd o Ystad Fasnachu Llwynhelyg – cyfleuster storfa oer, canolfan dosbarthu nwyddau, mynedfa newydd, cantîn, swyddfa a man storio – cymeradwywyd yn amodol 23/05/14

13/0391/PA – unedau 8, 9 a 18, Ystad Fasnachu Llwynhelyg – isrannu 3 o unedau diwydiannol ysgafn presennol yn 6 uned – cymeradwywyd yn amodol 16/09/13

07/0664/PA – uned B, plot 17, Ystad y Dwyrain, Llwynhelyg – adnewyddu 02/0320/PA ar gyfer newid dros dro i ystafell arddangos ceir gyda man gwerthu atodol a gweithdy cerbydau – cymeradwywyd yn amodol 24/09/07

06/1164/PA – oddi ar yr A.40 a Ffordd Llwynhelyg, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – gwerthu ceir, B1, B2 a B8 (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 27/07/07

05/0137/PA – unedau 16-18, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – adeiladu 3 uned gwasanaethu ar gyfer mathau defnydd B1, B2 a B8 (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 11/07/05

02/0320/PA – uned B, plot 17, Ystad y Dwyrain, Llwynhelyg – newid defnydd dros dro i ystafell arddangos ceir gyda man gwerthu atodol a gweithdy

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>cerbydau (am 5 mlynedd) – cymeradwywyd yn amodol 11/09/02 00/0604/PA – tir ar Ystad y Dwyrain, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – codi adeilad ar gyfer defnydd swyddfa, diwydiannol a warws (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 22/12/00 99/0319/PA – unedau 5 a 6, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – estyniad un bae i warws ffrâm porthol – cymeradwywyd yn amodol 31/08/99 98/0451/PA – unedau 5 a 6, Ystad Ddiwydiannol Llwynhelyg – estyniad un bae ar gyfer llwytho a dadlwytho lorïau – cymeradwywyd yn amodol 26/10/98</p>		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Fe all y GTDG drin y carthion cartref ond bydd unrhyw gynnig i ollwng elifiant masnachol angen caniatâd Dŵr Cymru dan Adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.	-
Carthffosiaeth	Mae'r garthffos 225mm ar derfyn deheuol y safle hwn. Mae carthffos 225mm ar wahân yn croesi'r safle i'r dwyrain ac mae'r ddwy garthffos yn draenio i Orsaf Bwmpio Carthion (SPS) Cryndal. Fe all yr orsaf bwmpio hon drin y carthion cartref o'r neilltuad hwn ond bydd unrhyw gynnig i ollwng elifiant masnachol angen caniatâd Dŵr Cymru dan Adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.	-
Dŵr	Mae'r brif bibell ddŵr 6 modfedd o dryfesur yn Ffordd y Llwyn Helyg yn ddigonol i ateb galwadau cartref y neilltuad hwn ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn gofyn am ddŵr 'diwydiannol', bydd angen i ddarpar	Posibilrwydd trafodaeth gyda Dŵr Cymru.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	ddefnyddwyr olaf drafod eu gofynion gyda Dŵr Cymru.	
	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae mân ddyfrhaen dan y safle.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mân newidiadau i Gylchfan y Llwyn Helyg.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl.	Bydd angen asesiad risg rhagarweiniol.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Agosrwydd at Faes Awyr Hwlfordd.	Mae gofynion diogelu yn ymwneud â Maes Awyr Hwlfordd.
	Dim materion	Yn ogystal â defnydd ar gyfer cyflogaeth, mae'r safle hwn hefyd yn cael ei ystyried fel un a allai fod yn addas ar gyfer adwerthu modurol.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Estyniad Gogleddol Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau (EMP/086/00001)

3.82 Ha	B1, B8	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer cyflogaeth yn bennaf ar dir a ddatblygwyd o'r blaen i'r gogledd o Parc Busnes Haven Head. Mae'r safle'n cynnwys tanciau cadw dan ddaear cysylltiedig â defnydd blaenorol. I'r gorllewin ac i'r gogledd</p>		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>o'r safle mae tir mewn defnydd amaethyddol (er bod tanciau cadw ychwanegol tua'r gogledd). Tua'r de mae'r Parc Busnes a Doc Aberdaugleddau ac i'r dwyrain mae nant a choetir, sy'n gwahanu'r safle o'r parc adwerthu gerllaw.</p>		
<p>Hanes cynllunio perthnasol 13/0614/PA – tir yn Liddleston Ridge, Aberdaugleddau – tŵr cyfathrebu latis 15m – cymeradwywyd yn amodol 29/11/13 12/0614/PA – I'r De-ddwyrain o Court Road, Liddleston – fferm arâe paneli solar a seilwaith cysylltiedig, offer a gwaith (mae'r cais yn ymestyn at ran fach o'r safle dynodedig) – cymeradwywyd yn amodol 24/01/13</p>		
<p>Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau</p>		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Capasiti cyfyngedig.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn i ateb y galwadau all godi o'r safle hwn.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i'r neilltuad hwn.	Bydd hyn yn gofyn bod Dŵr Cymru, sydd â phrif bibell ddŵr 150mm o dryfesur gerllaw, yn darparu prif gyflenwad oddi ar y safle.
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (Cylchfan Pont Victoria). Mae'r ffordd ym meddiant Dociau Aberdaugleddau a chwmni datblygu ac mae'r safle'n uwch na'r ffordd.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mae angen astudiaeth o'r gylchfan. Mae angen adeiladu ffordd (igam-ogam) i fyny'r allt.
Tir Halogedig	Potensial am danciau storio tanddaearol, mae'r defnyddiau hanesyddol yn cynnwys tir rheilffordd a depo	Fel rhan o unrhyw gais cynllunio, mae'n debygol y bydd gofyniad i nodweddu'r safle yn well (astudiaeth ddesg), llunio model safle

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	tanwydd.	cysyniadol a chynnal ymchwiliad treiddiol i'r tir gan gynnwys Asesiad Risg Haenen 1, DQRA. Mae arfarniad o ddewisiadau adfer a strategaeth adfer yn debygol o fod yn briodol hefyd.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd masnachol yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.
	Mae'r safle mewn man amlwg yn weledol yn edrych dros y dref.	Dylunio'r safle'n ofalus, er mwyn lleihau'r effaith weledol.

Cyffiniol â Marble Hall Road, Aberdaugleddau (EMP/086/LDP/01)

6.86 Ha	B1, B8	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen
Disgrifiad o'r safle		
Mae'r neilltuad tir ar gyfer cyflogaeth ar dir diwydiannol a ddatblygwyd o'r blaen ac mae hefyd yn ymgorffori cronfa ddŵr dan do. Mae'r safle'n bennaf ymysg datblygiad presennol neu arfaethedig, preswyl yn bennaf ond diwydiannol hefyd tua'r gogledd-orllewin. Mae mynediad ffordd yn bodoli o Marble Hall Road.		
Hanes cynllunio perthnasol		
Dim		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Capasiti cyfyngedig.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru.
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Mae tair o brif bibelli dŵr (10 modfedd, 8 modfedd a 160mm o dryfesur) yn croesi'r safle hwn, fydd yn cyfyngu ar unrhyw gynigion yn y dyfodol.	Mae angen mesurau diogelu naill ai ar ffurf lled hawddfrait neu wyriad.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd: (Marble Hall Cross Roads). Mae diffyg palmant ar y ffordd sirol.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Mae angen astudiaeth o'r groesffordd. Dylid darparu palmant.
Tir Halogedig	Fe all fod Ffynonellau Llygrol ar neu ger y safle yn CBL Ceramics blaenorol a thirlenwi cysylltiedig, Cromwell Road Garage.	Ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio bydd angen nodweddion y safle, model cysyniadol o'r safle, archwiliad tir ymwithiol DQRA, gwerthusiad dewisiadau adferol a strategaeth gwaith adfer.
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r dyraniad hwn yn gymysgedd o dir wedi'i ddatblygu'n flaenorol a thir maes glas sy'n ymgorffori safle'r hen Ysgol Fabanod a'i hen gae chwarae. Mae ynghanol Abergwaun ac o fewn pellter cerdded byr o Ganol y Dref. Mae o fewn terfynau Marchgae tua'r gogledd, Brodog Terrace tua'r gorllewin a gorsaf yr heddlu tua'r de. Bydd mynediad o Brodog Lane tua'r de.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>05/1171/PA – Ysgol Fabanod Abergwaun, Lôn Brodog, Abergwaun – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 19/12/05</p> <p>97/0156/PA – Ysgol Fabanod Abergwaun, Lôn Brodog, Abergwaun – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 29/10/97</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Dim materion	-		
Carthffosiaeth	Dim materion	-		
Dŵr	Dim materion	-		
Llifogydd	Dim materion	-		
Trafnidiaeth	Effaith ar strydoedd cyffiniol. Bydd traffig cyffordd Victoria Avenue yn effeithio ar Gefnffordd. Ffordd breifat i'r gogledd. Mynediad blaenorol i'r de-ddwyrain.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Posibilrwydd Adolygiad Mesurau Rheoli Traffig, ond ychydig le i wella.		
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl oherwydd defnyddiau tir cyfagos.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.		
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.		
Arall	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Tref a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	
--	--------------------------------------------------------------------	--

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Tref Wledig

Arberth – i'r gorllewin o Erddi Bloomfield (HSG/088/00078)				
3.58 Ha	89 anheddau	25 Dph	Tir Glas	25% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Tir glas yw'r neilltuad hwn ar gyfer tai, o fewn terfynau cloddiau aeddfed gyda choed collddail yma ac acw ar eu pennau, rhai ohonynt gyda Gorchymyn Gwarchod Coed arnynt. Mae'r safle ar lethr graddol o'r de i'r gogledd ac ar bwys stadau preswyl tua'r de a'r dwyrain, gyda thir agored tua'r gogledd a'r gorllewin.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>13/0588/PA – tir yn Adams Drive, Arberth - cais adran 73 i amrywio amodau 3 a 4 o 06/0938/PA – graddfa amser ar gyfer cyflwyno materion a gedwir yn ôl a dechrau datblygiad – cymeradwywyd yn amodol 27/05/16</p> <p>06/0938/PA – Glebeland, Adams Drive, Arberth – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 02/12/10 (ar 1.02Ha o'r safle)</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Gallu cyfyngedig i drin carthion yn y gwaith.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru. Cynllun AMP 5 i'w gyflawni erbyn 31ain Mawrth 2015.		
Carthffosiaeth	Materion cyfredol o ran carthffosiaeth.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.		
Dŵr	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.		
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.		
Llifogydd	Dim materion	-		
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (Redstone Cross ar yr A40). Mynediad rhanedig i Bloomfield Gardens ac	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Adolygu'r effaith ar Redstone Cross.		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Adams Drive (>60%), ond heb gyswilt cerbydol drwy'r safle.	
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Arberth – i'r gorllewin o Rushacre (HSG/088/00077)

2.40 Ha	58 anheddau	25 Dph	Tir Glas	25% Tai Fforddiadwy
---------	-------------	--------	----------	------------------------

Disgrifiad o'r safle

Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai i'r gogledd o dref Arberth. Ei natur yw tir glas o fewn terfynau cloddiau aeddfed a choed, rhai ohonynt gyda Gorchymyn Gwarchod Coed arnynt. Mae'r safle ar bwys stadau preswyl tua'r de a'r dwyrain, tir cyflogaeth i'r gogledd-ddwyrain a thir agored i'r gogledd-orllewin.

Hanes cynllunio perthnasol

09/0419/PA – tir gerllaw Fferm Rushacre, Heol Redstone, Arberth – datblygiad preswyl – 54 o unedau yn cynnwys darpariaeth fforddiadwy (llawn) – cymeradwywyd yn amodol 19/03/14

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Gallu cyfyngedig i drin carthion yn y gwaith.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru. Cynllun AMP 5 i'w gyflawni erbyn 31ain Mawrth 2015.
Carthffosiaeth	Rhaid peidio â llwytho'r carthffosydd gyda mwy na'r hyn a ganiatawyd eisoës (gwelwch Adran 12 cod F).	Gweler amodau cais cynllunio cyfeirnod 09/0419/PA.
Dŵr	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (Redstone Cross on A40). Mynediad drwy Erddi Bloomfield yn unig.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Yn arbennig oherwydd y gall fod effeithiau yn Redstone Cross (cyffordd yr A40 gyda Redstone Road).
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Trwch.	Wedi'i neilltuo ar 25dph oherwydd dwysedd isel yr ystâd gyfagos.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Canolfannau Gwasanaethol

Johnston – cyffiniol â Milford Road (HSG/048/00038)				
5.21 Ha	130 anheddau	25 Dph	Tir Glas	10% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r dyraniad tai hwn wedi'i leoli ar ben deheuol pentref Johnston ar dir amaethyddol. I'r gorllewin ac i'r gogledd o'r safle datblygwyd tir yn bennaf ond nid yn unig ar gyfer tai; tua'r dwyrain mae Ffordd yr Eglwys a darn o dir agored a fwriadwyd fel man agored ar y cyd â'r datblygiad tai; ac i'r de mae tir a gafodd ganiatâd ar gyfer datblygiad tai ac eglwys newydd (cwblhawyd yr olaf yn 2013).</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>15/0626/DC – tir i'r gorllewin o Hayston Road, oddi ar yr A.477, Johnston – cyflawno amod 15 o ganiatâd cynllunio 14/0304/PA – gwrthodwyd yn rhannol, cymeradwywyd yn rhannol, 23/09/15</p> <p>15/0225/PA – tir i'r gorllewin o Hayston Road, oddi ar yr A.477, Johnston – cymeradwyo materion a gedwir yn ôl ar gyfer adeiladu tai – cymeradwywyd yn rhannol 06/08/15</p> <p>14/0304/PA – tir i'r gorllewin o Hayston Road, Johnston – bloc swyddfeydd gyda mynedfa newydd, lle parcio a thirlunio (cais llawn) ynghyd â thai (cais amlinellol) – cymeradwywyd yn rhannol 12/12/14</p> <p>09/0682/PA – tir oddi ar yr A477, Hayston Road, Johnston – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn rhannol 06/02/12</p> <p>09/0455/PA – tir i'r dwyrain o Aberdaugleddau (cae 1217), Johnston – datblygiad preswyl a lle amwynder (amlinellol) – gwrthodwyd 13/07/11</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Mae GTDG Johnston wedi'i orlwytho ar hyn o bryd.	Mae Dŵr Cymru wedi cyngori ar 19/08/16 fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff ar wahân yn Hook a Johnston wedi'u gorlwytho ar hyn o bryd, er bod cynllun gwella ar y cyd wedi'i gynllunio i'w gwblhau erbyn 30 Medi 2017. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn yr un o'r ddau ddalgylch, byddem yn troi at y Cyngor i bennu amod Grampian, gan sicrhau na ellir gwneud unrhyw gysylltiad â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus tan y dyddiad hwn'.		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn i ateb y galwadau all godi o'r safle hwn.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A4076T). Mynediad o'r A477 (nid y A4076T). Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd. Gwella cysylltiadau cerdded / seiclo â'r gogledd. Materion gwelededd ar y gyffordd.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Darparu cyswllt palmant a lloches groesi ar y gefnffordd i gyrraedd y pentref a gwasanaethau bws. Efallai bod angen mesurau arafu a rheoli traffig.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymaferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Dim materion	-

Treletert - Court Meadow (HSG/053/00009)

2.28 Ha	90 anheddau	40 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae'r neilltuad tir hwn yn safle tir glas ynghanol Treletert. Mae'r safle o fewn terfynau tir amaethyddol tua'r gogledd a'r gorllewin, Ffordd Tyddewi tua'r de a stâd dai Spring Gardens i'r dwyrain.				
Hanes cynllunio perthnasol				
16/0082/DC – cam 2, Court Meadow, Ffordd Tyddewi, Treletert – cyflawni amodau 6 a 16 o gais cynllunio 10/0924/PA – gwrthodwyd yn rhannol, cymeradwywyd yn rhannol, 28/04/16				
15/1194/DC – Court Meadow, Ffordd Tyddewi, Treletert – cyflawni amodau 6 a 16 o gais cynllunio 10/0924/PA – gwrthodwyd, 20/04/16				
15/0998/DC – Court Meadow, Ffordd Tyddewi, Treletert – cyflawni amodau 2, 8 a 10 o gais cynllunio 10/0924/PA – gwrthodwyd yn rhannol, cymeradwywyd yn rhannol, 18/02/16				
10/0924/PA – cam 2, Court Meadow, Treletert – datblygiad preswyl (llawn) – cymeradwywyd yn rhannol 09/05/11				
10/0267/PA – Court Meadow, Ffordd Tyddewi, Treletert – amrywiad o amod 2 o 98/0628/PA (i ymestyn y ffrâm amser ar gyfer cyflwyno materion a				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>gedwir yn ôl) (adran 73) – cymeradwywyd yn rhannol 01/09/10</p> <p>06/0743/PA – tir yn Court Meadow, Treletert – 4 annedd – cymeradwywyd yn rhannol 29/08/08</p> <p>04/0036/PA – rhan o gae OS 0778, Ffordd Tyddewi, Treletert – datblygiad preswyl (amlinellol) – gwrthodwyd 04/06/09 a gwrthodwyd yr apêl 10/06/10</p> <p>01/0981/PA – cam 1, cae OS 0778, Court House, Treletert – ffordd fynediad a phedwar tŷ gyda man parcio / garej parcio cysylltiedig (materion a gedwir yn ôl) – cymeradwywyd yn rhannol 22/04/02</p> <p>98/0628/PA – tir yn Court House, Treletert – adnewyddu caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn rhannol 03/02/99 (rhan ddeheuol y safle)</p>		
<p>Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau</p>		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Capasiti cyfyngedig.	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru.Cynllun AMP 5 i'w gyflawni erbyn 31ain Mawrth 2015.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn i ateb y galwadau all godi o'r safle hwn.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A40 Letterston). Cysylltiadau palmant, gwelliannau cludiant cyhoeddus yn angenrheidiol.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Posibilrwydd goleuadau i reoli Letterston Cross. Gwella'r palmant, yn enwedig i'r ysgol. Cyfraniad cludiant cyhoeddus.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod,

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------

Crymych – rhwng yr ysgol a Station Road (HSG/030/00043)

2.07 Ha	60 anheddau	29 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
---------	-------------	--------	----------	---------------------------

Disgrifiad o'r safle

Mae hwn yn safle tir glas i'r dwyrain o ffordd yr A478. Mae'r safle'n rhedeg i lawr o'r de i'r gogledd ac o fewn terfynau datblygiad presennol ar ei ochrau gorllewinol a gogleddol, tiroedd ysgol tua'r de a thir amaethyddol agored i'r dwyrain. Mae datblygiad presennol yn rhan hon y pentref ar amrywiaeth o ffurfiau, ond tai rhes hŷn sy'n fwy na dim arall tua'r gorllewin. Mae cyfyngiad sylweddol ar y safle'n gysylltiedig â mynediad i'r briffordd, gydag ateb heb ei gytuno eto. Mae lled a gwelededd y gyffordd yn cyfyngu ar gyfleoedd presennol i greu mynedfa gerbydau. Bydd gofyniad hefyd i groesi tir trydydd-parti.

Hanes cynllunio perthnasol

Dim

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Mae GTDG Crymych wedi'i orlwytho ar hyn o bryd.	Mae Dŵr Cymru wedi cyngori ar 19/08/16 fod ein 'GTDG yng Nghrymych wedi'i orlwytho ar hyn o bryd, er bod gwelliannau wedi'u cynllunio i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2018. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn troi at y Cyngor i bennu amod Grampian, gan sicrhau na ellir gwneud unrhyw gysylltiad â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus tan y dyddiad hwn'.
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Trafnidiaeth	Ni nodwyd unrhyw fynediad addas – a bydd angen croesi tir trydydd-parti. Posibilwydd mynediad ar gyfer datblygiad cyfyngedig o Station Road i'r gogledd, sy'n gul.	Bydd angen dod o hyd i fynediad derbyniol a'i gynllunio mewn trafodaeth â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl oherwydd defnyddiau tir cyfagos.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.
	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Crymych – i'r dwyrain o Waunaeron (HSG/030/LDP/01)

1.24 Ha	35 anheddau	28 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae hwn yn safle tir glas yn rhan ddeheuol y pentref, ar bwys Waunaeron. Mae'r safle'n eithaf gwastad ac o fewn terfynau datblygiad presennol tua'r gogledd-orllewin, y ffordd sirol i Hermon tua'r gogledd-ddwyrain a thir amaethyddol agored tua'r de-orllewin a'r de-ddwyrain. Mae datblygiadau preswyl gerllaw'n gymysgedd o anheddau ar led-wahân ac ar wahân o drwch pur isel. Mae'r cae cul yn union i'r de-orllewin o'r neilltuad am y terfyn ag Afon Gafel ac yn bennaf o fewn y parth llifogydd C2.				
Hanes cynllunio perthnasol				
Dim				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Mae GTDG Crymych wedi'i orlwytho ar hyn o bryd.	Mae Dŵr Cymru wedi cyngori ar 19/08/16 fod ein 'GTDG yng Nghrymych wedi'i orlwytho ar hyn o bryd, er bod gwelliannau wedi'u cynllunio i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2018. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn troi at y Cyngor i bennu amod Grampian, gan sicrhau na ellir gwneud unrhyw gysylltiad â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus tan y dyddiad hwn'.
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Dim materion	-
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Buddion yr amgylchedd hanesyddol.	Mae'r cynnig i ddatblygu'n annhebygol o effeithio er gwaeth ar y buddion o ran yr amgylchedd hanesyddol.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.
	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Cilgeti – estyniad i James Park a Cotswold Gardens (HSG/050/00042)				
3.03 Ha	75 anheddau	25 Dph	Tir Glas	20% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai i'r gogledd o ddatblygiad presennol yn James Park a Cotswold Gardens. Mae'r safle'n dir glas, ac o fewn terfynau cloddiau a choed aeddfed, rhai ohonynt gyda Gorchymyn Gwarchod Coed arnynt. Mae'r tir yn rhedeg i fyny tua'r gogledd, oddi wrth y datblygiad preswyl presennol.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>16/0650/NM – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – diwygiad ansylweddol i hepgor wal gynnal i'r cefn a'r ochr i blotiau 20-24, gan gyflwyno bwnd a newidiadau i lefelau'r safle, hefyd ychwanegu wal gynnal gerrig i flaen plotiau 35 / 36, codi lefel slab plot 30 o 300mm, adlinio'r wal gawell i gefn plot 33 a newid i'r manau parcio ar blotiau 39 a 40 o gais cynllunio 15/0137/PA – cymeradwywyd yn ddiamod 01/11/16</p> <p>16/0178/NM – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – diwygiad ansylweddol i gais cynllunio 15/0137/PA (newid lefelau slab i blotiau 4, 5 a 6) – cymeradwywyd yn ddiamod 07/06/16</p> <p>15/1195/NM – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – diwygiad ansylweddol i gais cynllunio 15/0137/PA – caniatâd amodol rhannol a gwrthodiad rhannol, 06/04/16</p> <p>15/1130/DC – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – cyflawni gofynion cyn dechrau ar gyfer amodau cynllunio 5, 7, 9, 10 a 12 o gais cynllunio 15/0137/PA – cymeradwywyd yn amodol 04/05/16</p> <p>15/1036/NM – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – diwygiad ansylweddol i gais cynllunio 15/0137/PA – cymeradwywyd yn ddiamod 01/02/16</p> <p>15/0137/PA – tir i'r gogledd o James Park, Cilgeti – 55 o anheddau a gwaith cysylltiedig – cymeradwywyd yn amodol 07/01/16</p> <p>07/0367/PA – tir yn James Park, Cilgeti – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 30/06/08 (ar ran o'r dyraniad)</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Mae GTDG Langdon wedi'i orlwytho.	Yn Awst 2016, cynghorodd Dŵr Cymru fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) yn Langdon yn gwasanaethu aneddiadau Begeli a Chilgeti, gyda llifau budr o anheddiad Cilgeti yn cael eu pwmpio i GTDG Langdon. Mae'r GTDG wedi'i orlwytho ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio o fewn ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol (AMP6) sy'n rhedeg		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

		hyd at 31 Mawrth 2020. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn gwrthwynebu ar hyn o bryd'.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Nid yw'r garthffos gyhoeddus ger y neilltuad arfaethedig hwn yn ddigon mawr i allu ateb y galwadau o'r safle hwn. Mae'r garthffos gyhoeddus agosaf tua 250 metr i ffwrdd ac mae angen carthffosydd oddi ar y safle.	Mae angen astudiaeth datblygwr (gwelwch adran 12 cod E). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu. Mae angen carthffosydd oddi ar y safle.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepside). Gwella'r cysylltiadau palmant.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Cysylltiad drwy'r parc i'r dwyrain.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Cilgeti – tir y tu ôl i Newton Hall (HSG/050/00043)

1.33 Ha	26 anheddau	20 Dph	Tir Glas	20% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai i'r de-orllewin o'r Pentref. Mae'r safle'n dir glas ac o fewn terfynau cloddiau a choed aeddfed, a thir comin yn Kingsmoor tua'r gorllewin. Mae'r A477 yn rhedeg i dde'r safle, er ei bod yn annhebygol iawn y bydd mynediad uniongyrchol o'r safle at y ffordd strategol hon yn cael ei dderbyn gan yr Awdurdod Cefnffyrdd.</p>				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Hanes cynllunio perthnasol		
Dim		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Mae GTDG Langdon wedi'i orlwytho.	Yn Awst 2016, cyngorodd Dŵr Cymru fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) yn Langdon yn gwasanaethu aneddiadau Begeli a Chilgeti, gyda llifau budr o anheddiad Cilgeti yn cael eu pwmpio i GTDG Langdon. Mae'r GTDG wedi'i orlwytho ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio o fewn ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol (AMP6) sy'n rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn gwrthwynebu ar hyn o bryd'.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Mae'n hysbys bod y carthffosydd cyhoeddus yn yr ardal hon yn orlawn. Mae'r garthffos gyhoeddus agosaf tua 250 metr i ffwrdd ac mae angen carthffosydd oddi ar y safle.	Dim buddsoddiad (gwelwch adran 12 cod D). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu. Mae angen carthffosydd oddi ar y safle.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepside). Mae Station Road yn gul heb balmentydd. Fe all pont y rheilffordd gyfyngu ar welededd o Station Road.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Wedi'i neilltuo ar 20dph oherwydd mynediad ffordd gwael a materion ynglŷn â chapasiti. Byddai modd adeiladu rhywfaint o balmant.
Tir Halogedig	Dim materion	-

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Dim materion	-

Cilgeti – tir i'r gorllewin o Ysgol Stepside (HSG/050/00041)

0.61 Ha	19 anheddau	31 Dph	Tir Glas	20% Tai Fforddiadwy
---------	-------------	--------	----------	---------------------

Disgrifiad o'r safle

Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai ar bwys Ysgol Gynradd Stepside, i'r de o St Marys Place ac i'r dwyrain o Shillingford Park Homes. Mae'n safle tir glas rhwng gwrychoedd aeddfed ar ddwy ochr.

Hanes cynllunio perthnasol

15/1222/PA – tir i'r gorllewin o Ysgol Stepside, Cilgeti – cais cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu annedd preswyl, yn cynnwys mynedfa – cymeradwywyd yn amodol 28/10/16

09/0582/PA – tir gerllaw Ysgol Stepside, Cilgeti – adeiladu 19 o anheddau, yn cynnwys mynedfa (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 25/01/11

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Mae GTDG Langdon wedi'i orlwytho.	Yn Awst 2016, cynghorodd Dŵr Cymru fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) yn Langdon yn gwasanaethu aneddiadau Begeli a Chilgeti, gyda llifau budr o anheddiad Cilgeti yn cael eu pwmpio i GTDG Langdon. Mae'r GTDG wedi'i orlwytho ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio o fewn ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol (AMP6) sy'n rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn gwrthwynebu ar hyn o bryd'.
Carthffosiaeth	Rhaid peidio â llwytho'r carthffosydd uwchlaw'r hyn a ganiatawyd eisoes (gwelwch adran 12 cod F).	Gweler amodau cais cynllunio cyfeirnod 09/0582/PA.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Dŵr	Statws ecolegol da dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw. Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae mân ddyrhaen dan y safle.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw. Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnfordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepside).	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Mae piblinell nwy yn croesi'r safle.	Mae angen ymgynghori â'r gwasanaeth cyhoeddus.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Cilgeti – tir i'r de o Kilvelgy Park (HSG/050/00044)

0.80 Ha	20 anheddau	25 Dph	Tir Glas	20% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai i'r de o Kilvelgy Park, i'r dwyrain o bentref Cilgeti. Mae'n safle tir glas o fewn terfynau gwrychoedd aeddfed tua'r de a'r dwyrain. Mae'r A477 tua'r dwyrain a'r de, er mai dim ond ar hyd y rhwydwaith ffyrdd presennol y mae mynediad i'w gael.				
Hanes cynllunio perthnasol				
Dim				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Mae GTDG Langdon wedi'i orlwytho.	Yn Awst 2016, cyngorodd Dŵr Cymru fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) yn Langdon yn gwasanaethu aneddiadau Begeli a Chilgeti, gyda llifau budr o anheddiad Cilgeti yn cael eu pwmpio i GTDG Langdon. Mae'r GTDG wedi'i orlwytho ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio o fewn ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol (AMP6) sy'n rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn gwrthwynebu ar hyn o bryd'.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Byddai angen ymestyn y garthffos 150mm o dryfesur yn ffordd ystâd Kivelgy Park i wasanaethu'r safle.	Bydd hyn yn gofyn darn o garthffos oddi ar y safle.
Dŵr	Byddai angen ymestyn y brif bibell ddŵr 160mm o dryfesur yn ffordd ystâd Kivelgy Park i wasanaethu'r safle.	Bydd hyn yn gofyn darn o brif gyflenwad oddi ar y safle.
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepaside).	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Pentrefi Gwasanaethol

Begeli – i'r gogledd o New Road (HSG/003/00024)				
3.00 Ha	65 anheddau	22 Dph	Tir Glas	10% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Tir glas yw'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai o fewn terfynau cloddiau aeddfed a choed collddail, llawer ohonynt gyda Gorchymyn Gwarchod Coed arnynt ac yn ffurfio rhan o goridor gwyrdd llinellol i dir comin Kingsmoor. Mae'r safle ar lethr graddol o'r gogledd i'r de ac o fewn terfynau datblygiad preswyl i'r de, i'r dwyrain ac i'r gogledd, gyda thir agored tua'r gorllewin. Mae'r tir i'r de o'r safle mewn parth llifogydd C2.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>11/0687/PA – tir i'r de o Sunnyside, Parsonage Lane, Begeli – datblygiad preswyl (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 27/03/15</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Mae GTDG Langdon wedi'i orlwytho.	Yn Awst 2016, cyngorodd Dŵr Cymru fod ein 'gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) yn Langdon yn gwasanaethu aneddiadau Begeli a Chilgeti, gyda llifau budr o anheddiad Cilgeti yn cael eu pwmpio i GTDG Langdon. Mae'r GTDG wedi'i orlwytho ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio o fewn ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol (AMP6) sy'n rhedeg hyd at 31 Mawrth 2020. Fel y cyfryw, os gofynnir am ganiatâd cynllunio o fewn y dalgylch, byddem yn gwrthwynebu ar hyn o bryd'.		
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Mae'n hysbys bod y carthffosydd cyhoeddus yn yr ardal hon yn orlawn.	Dim buddsoddiad (Gwelwch Adran 12 cod D). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.		
Dŵr	Dim materion	-		
Llifogydd	Dim materion	-		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepside). Hyd at 6 uned yn cael mynediad o Parsonage Lane.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Prifffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Gwelliannau posibl i lwybr ceffylau tua'r de-orllewin.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Gorchmynion Gwarchod Coed ar y safle.	Mae angen ardal glustogi ar hyd y cloddiau a hawl dramwy gyhoeddus i warchod buddion Gorchmynion Gwarchod Coed ac amwynder.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Blaenffos – wrth ymyl Hafod (HSG/006/00003)

0.93 Ha	10 anheddau	11 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
<p>Mae hwn yn safle tir glas yn union i'r dwyrain o ffordd yr A478. Mae datblygiad preswyl presennol i'r gogledd, i'r de ac i'r gorllewin. Mae'r safle'n rhedeg i lawr o'r de i'r gogledd. Mae eiddo preswyl gerllaw yn dai ar wahân ac wedi'u datblygu ar drwch isel. Mae trwch arfaethedig y safle'n adlewyrchu'r datblygiadau o amgylch. Bydd mynediad cerbydau i'r safle o ffordd yr A478 – mae mynedfa bresennol i'r de o eiddo Gyn Rhosyn y byddai modd ei gwella i'r diben hwn. Dynodwyd tir yn union i'r dwyrain o'r safle'n fan agored amwynderol.</p>				
Hanes cynllunio perthnasol				
<p>03/0372/PA – Rhifau caeau OS 0576 a 0264 (rhan), Blaenffos – 32 anheddau (cynlluniau diwygiedig) (llawn) – gwrthodwyd 08/08/07</p>				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Dim materion	Cyflawnwyd cynllun AMP 4. Mae Dŵr Cymru'n sylwi ar y gostyngiad yn nhrwch y tai a		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

		bydd y GTDG yn gallu trin y carthion o'r trwch dan sylw.
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Dim materion	-
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl oherwydd defnyddiau tir cyfagos.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Boncath – i'r gogledd o Gilfan y Coed (HSG/007/LDP/01)

0.69 Ha	10 anheddau	15 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae hwn yn safle tir glas ar rediad graddol ar ymyl ogleddol pentref Boncath. Mae datblygiad preswyl presennol i'r gorllewin ac i'r de, gyda chaeau agored i'r dwyrain ac i'r gogledd. Mae'r datblygiad sydd ar bwys y safle'n dai ar wahân, ar drwch isel. Mae trwch arfaethedig y safle'n adlewyrchu'r eiddo cyfagos. Bydd mynediad cerbydau i'r safle o'r ffordd sirol sy'n rhedeg tua'r gogledd i gyfeiriad Rhoshill (C3021).				
Hanes cynllunio perthnasol				
16/0401/PA – tir i'r gogledd o ben gogleddol pentref Boncath – adeiladu 10 byngalo dormer, gyda mynedfa gysylltiedig a gwaith tirlunio – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Dim materion	-		
Carthffosiaeth	Dim materion	-		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Dim palmentydd.	Datblygiad yn wynebu'r ffordd yn unig.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl oherwydd defnyddiau tir cyfagos.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall		Bydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu ar drwch isel gan fod hwn yn llain sy'n wynebu'r ffordd yn unig.
	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Broadmoor – i'r gogledd-orllewin o Lyndhurst Avenue (HSG/008/LDP/01)

0.48 Ha	12 anheddau	25 Dph	Tir Glas	10% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai i'r gorllewin o bentref Broadmoor ac o natur tir glas, yn ffinio â'r B4586 ac uned trin dŵr segur tua'r gogledd, a Lyndhurst Avenue tua'r dwyrain.				
Hanes cynllunio perthnasol				
08/0853/PA – plot gerllaw Pinewood, Broadmoor – annedd (llawn) – gwrthodwyd 11/12/08				
07/0015/PA – tir gerllaw Pinewood, Broadmoor – annedd (llawn) – gwrthodwyd 31/05/07				
06/0093/PA – plot gerllaw Pinewood, Broadmoor – annedd (llawn) – gwrthodwyd 15/06/06				
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

GTDG	Dim materion	-
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol o ran carthffosiaeth.	Dim buddsoddiad (gwelwch adran 12 cod D). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd traffig yn effeithio ar Gefnffordd (A477 Cylchfan Cilgeti a Chyffyrdd Stepside). Posibilrwydd anhawster gweld ymlaen dros dir trydydd-parti o ran traffig EB pe bai cerbydau'n aros cyn troi i'r datblygiad.	Dylid ymgynghori â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol cyn cyflwyno cais. Bydd rhaid i ran fechan o dir yn Scranton House gael ei brynu i fodloni anghenion gwelededd y safle.
Tir Halogedig	Problemau halogi posibl oherwydd defnyddiau tir cyfagos.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Cilgerran – wrth ymyl Holly Lodge (HSG/020/00062)

1.10 Ha	24 anheddau	22 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r safle tir glas hwn rhwng datblygiad tai presennol ar hyd ffordd y pentref a rheilffordd segur tua'r de. I'r de o'r rheilffordd segur mae cefn gwlad agored. Eiddo ar wahân yw'r tai sy'n wynebu ffordd y pentref yn union i'r gogledd o'r safle a neilltuwyd ac wedi'u datblygu ar drwch isel. Mae mynediad gerbydau i'w gael o ffordd y pentref (C.3004), yn union i'r gorllewin o Awel Deg.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>16/0773/DC – tir gerllaw Holly Lodge, Cilgerran – cyflawno amodau 4 (cynllun rheoli traffig) ac 14 (cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu) ar gyfer 15/0859/PA – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016</p>				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

<p>16/0684/DC – tir gerllaw Holly Lodge, Cilgerran – cyflawni amodau 3 (ffyrdd mynediad), 8 (ffyrdd mynediad hefyd, yn cynnwys draeniad), 10 (tirlunio), 11 (tirlunio hefyd), 12 (bioamrywiaeth), 13 (goleuadau) a 15 (draeniad) ar gyfer 15/0859/PA – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016</p> <p>16/0573/AD – Holly Lodge, Cilgerran – arwydd 1.53m o uchder x 1.22 m o led – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016</p> <p>15/0859/PA – tir gerllaw Holly Lodge, Cilgerran – datblygiad preswyl – cymeradwywyd yn amodol 18/07/16</p>		
<p>Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau</p>		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Capasiti cyfyngedig.	Nodwyd opsiwn i ddatblygwyr gyfrannu (Gweler adran 12 cod B). Yn cael ei adolygu ar gyfer cynllun AMP6 (yn amodol ar gyllid).
Carthffosiaeth	Ni nodwyd unrhyw opsiynau gan DCWW ond mae tystiolaeth anecdotaidd leol o gapasiti carthffos budr cyfyngedig mewn rhannau o dalgylch Afon Plysgog.	Dim cynigion presennol i ddiweddarau.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Mae angen sefydlu'r dull draenio dŵr arwyneb i'r safle hwn ar y cam cyflwyno cais cynllunio, ac ar yr adeg honno byddai angen asesiad manwl o gyrsiau dŵr a draenio. Dylai'r defnydd o SuDS sicrhau nad yw unrhyw faterion llifogydd lleol yn nalgylch Afon Plysgog yn cael eu gwaethygu. (Gweler Adroddiad Arolygydd CDLI, paragraff 10.25). Tra bod dŵr ffo caeau glas yn bosibilrwydd, mae angen ymchwilio pellach er mwyn sefydlu a ellir	Bydd hyn yn dibynnu ar ba ateb a gynigir. Os defnyddir y rhwydwaith draenio dŵr arwyneb presennol, gallai fod angen gweithfeydd ar y safle ac oddi arno. Gall y 'Flood Appraisal Initial Assessment' gan Atkins fod ar gael i bartion â diddordeb.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	<p>defnyddio hyn yn foddhaol ar y safle hwn. Mae hanes o lifogydd dŵr arwyneb i'r briffordd gyhoeddus ym Mhenllyn yn codi o'r defnydd o rwydwaith draenio a rennir, yn cynnwys draeniau tir preifat a draeniau priffyrdd cyhoeddus. Os bydd angen draenio dŵr arwyneb o'r safle a ddyrennir trwy'r systemau draenio presennol hyn, rhaid sicrhau nad yw'r sefyllfa llifogydd yn Afon Plysgog yn cael eu gwaethygu. Mae 'Flood Appraisal Initial Assessment', a baratowyd gan Atkins i Gyngor Sir Penfro, ar gael i fwydo gwybodaeth i drafodaethau ar yr agwedd hon, a ddylai gynnwys peirianwyr draenio'r Cyngor. Ni ragwelir y bydd unrhyw faterion llifogydd o ran prif afonydd (mae Afon Plysgog yn gwrs dŵr arferol yn hytrach na'r brif afon).</p>	
Trafnidiaeth	Dim materion	-
Tir Halogedig	Hen reilffordd i'r de.	Bydd angen cynnal asesiad risg cychwynnol. Bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw halogi a ganfyddir ar y cyd â datblygu.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Posibilrwydd effaith ar	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Safle Natura 2000.	adeg gwneud cais.
	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Clarbeston Road – i'r gorllewin o Ash Grove (HSG/022/00012)

0.83 Ha	21 anheddau	25 Dph	Tir Glas	15% Tai Fforddiadwy
---------	-------------	--------	----------	---------------------

Disgrifiad o'r safle

Mae'r neilltuad tir hwn ar gyfer tai yn rhan ddeheuol pentref Clarberston Road, ar dir rhwng datblygiad presennol ar dair ochr (yn bennaf yn anheddau ar wahân, ar led-wahân ac mewn rhesi) gyda thir amaethyddol ar y bedwaredd ochr (orllewinol). Mae caniatâd cynllunio ar ran ogleddol y safle ar gyfer tai (15 annedd) yn cael eu gwasanaethau o fynediad ar ffordd y pentref, tra bydd mynediad i weddill y safle hefyd o ffordd y pentref, yn dibynnu ar ryddhau rhan o ardd Ash Grove i gyrraedd tir y tu cefn (gorllewin).

Hanes cynllunio perthnasol

15/0866/PA – Orton Park, Clarbeston Road – amrywiad o amod 3 o 09/0677/PA ac amod 5 o 13/0981/PA – cymeradwywyd yn amodol 15/01/16

15/0150/PA – Orton Park, Clarbeston Road – amrywiad o amod 5 o 13/0981/PA i ganiatáu dyluniad diwygiedig ar gyfer mathau o dai ar blotiau 1, 2 a 3 – cymeradwywyd yn amodol 08/07/15

14/0830/PA – tir gyferbyn â Lamborough Crescent, Clarbeston Road – cais materion a gedwir yn ôl ar gyfer manylion tirlunio – cymeradwywyd yn amodol 20/01/15

13/0981/PA – tir gyferbyn â Lamborough Crescent, Clarbeston Road – amrywiad o amod 3 – estyniad i'r cyfnod amser (09/0677/PA) – amlinelliad ar gyfer 15 o anheddau – cymeradwywyd yn amodol 21/11/14

09/0677/PA – tir gyferbyn â Lamborough Crescent, Clarbeston Road – datblygiad preswyl (15 o anheddau) (amlinellol) – cymeradwywyd yn amodol 27/07/10 (ar ran o'r dyraniad)

04/1199/PA – safle yn Clarbeston Road – 4 plot preswyl (amlinellol) – gwrthodwyd 22/02/05

03/0968/PA – tir gerllaw Ash Grove, Clarbeston Road – dau annedd (amlinellol) – gwrthodwyd 24/12/03

03/0549/PA – safle yn Clarbeston Road – 4 plot ar gyfer tai – gwrthodwyd 09/01/04

Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Dim materion	-
Carthffosiaeth	Dim materion	-
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Bydd mynediad ffordd yn dod o ffordd y pentref, mewn man i'r gogledd o Ash Grove (dylid trafod safle manwl ag isadran Trafnidiaeth y Cyngor). Mae'r cynllun a gafodd ganiatâd ar gyfer 15 annedd yn dibynnu ar wella mynedfa cae presennol yn rhan ogledd-ddwyreiniol y safle. Nid oes palmentydd.	Mae angen palmentydd.
Tir Halogedig	Dim materion	-
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Buddion yr amgylchedd hanesyddol.	Mae'n annhebygol y bydd cynnig datblygu'n effeithio'n andwyol ar fuddion yr amgylchedd hanesyddol.
	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.

Clunderwen – Safle depo (HSG/152/LDP/01)

0.96 Ha	28 anheddau	29 Dph	Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
Disgrifiad o'r safle				
Mae safle'r neilltuad hwn yn ymgorffori Depo presennol a'r tir agored ar ei bwys ac, felly, mae'n dir a ddatblygwyd o'r blaen yn rhannol. Mae datblygiad presennol, tai'n bennaf, i'r gogledd, i'r gorllewin ac i'r de, ond mae tir mwy agored tua'r dwyrain a'r de-ddwyrain, yn cynnwys caeau amaethyddol bach. Mae'r tai cyfagos yn gymysgedd o unedau mewn rhes ac ar wahân.				
Hanes cynllunio perthnasol				
15/0166/PA – Clynderwen and Cardiganshire Farmers Ltd, Clunderwen – datblygiad preswyl (yn cynnwys tai fforddiadwy) – dim penderfyniad ym mis				

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

Tachwedd 2016 08/0309/PA – Clynderwen and Cardiganshire Farmers Ltd, Clunderwen – dymchwel adeiladau ac ailddatblygu safle ar gyfer defnydd preswyl a rhannol fasnachol (amlinello) – gwrthodwyd 07/08/08		
Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau		
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb
GTDG	Cynhwysedd cyfyngedig	Nodwyd bod dewis i'r datblygwr gyfrannu at welliannau (gwelwch adran 12 cod B). Bydd gofyn cael gwelliannau i'r GTDG yn AMP Dŵr Cymru. Cynllun AMP 5 i'w gyflawni erbyn 31ain Mawrth 2015.
Carthffosiaeth	Nodwyd materion cyfredol ynghylch carthffosiaeth. Mae'n hysbys bod y carthffosydd cyhoeddus yn yr ardal hon yn orlawn.	Dim buddsoddiad (gwelwch adran 12 cod D). Mae angen asesiad modelu hydrologig i benderfynu ble gall y datblygiad gysylltu.
Dŵr	Dim materion	-
Llifogydd	Dim materion	-
Trafnidiaeth	Ni ddylai mynediad ddod o gwbl o Gower Villa Lane.	-
Tir Halogedig	Mae posibilrwydd halogiad tir.	Bydd angen asesiad peryglon rhagarweiniol.
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd cymysgedd preswyl yn hysbys.
Arall	Buddion yr amgylchedd hanesyddol.	Mae'n annhebygol y bydd cynnig datblygu'n effeithio'n andwyol ar fuddion yr amgylchedd hanesyddol.
	Mae'r dyraniad hwn mewn ardal Cyngor Cymuned a ddiffinnir fel un 'sensitif o ran iaith' (polisi SP 9). Mae hyn oherwydd bod mwy na 25% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad	Gall fod angen rhyddhau'r dyraniad fesul cyfnod, ynghyd ag arwyddion dwyieithog, a mesurau lliniaru eraill os oes angen.

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	2011).	
--	--------	--

Cosheston – i'r De o Tinkers Fold (HSG/025/00028)				
0.64 Ha	6 anheddau	9 Dph	Tir Glas	10% Tai Fforddiadwy
<p>Disgrifiad o'r safle</p> <p>Mae'r dyraniad yn cynnwys rhan o gae amaethyddol ar ymyl dwyreiniol Cosheston. Mae anheddau i'r gorllewin a thu hwnt i'r ffordd i'r gogledd. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo sengl â'u blaenau tua'r ffordd. Dylid datblygu'r dyraniad mewn modd tebyg, gyda phlotiau a'u blaenau tua'r ffordd yn unig i gydsynio â'r patrwm datblygu o amgylch.</p>				
<p>Hanes cynllunio perthnasol</p> <p>Dim</p>				
<p>Cyfyngiadau a dulliau posibl o roi sylw i gyfyngiadau</p>				
Cyfyngiadau	Materion safle	Ffordd ymateb		
GTDG	Dim materion	-		
Carthffosiaeth	Dim materion	-		
Dŵr	Statws ecolegol cymedrol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw. Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.		
	Mae mân ddyfrhaen o fewn y safle.	Cynllun y datblygiad i ymgorffori dylunio teimladol o'r ardaloedd dan sylw. Rhaid sicrhau na fydd dim dirywiad yn y statws ecolegol ac, felly, rhaid i holl fesurau atal llygredd fodoli.		
	Mae cwrs dŵr yn llifo ar hyd ymyl y safle.	Gweler paragraff 2.7.		
Llifogydd	Dim materion	-		
Trafnidiaeth	Dim materion	-		
Tir Halogedig	Dim materion	-		
Trydan	Dim cyfyngiadau ar gysylltu yn amodol ar ymarferoldeb y safle.	WPD i asesu'r llwyth unwaith y bydd y cymysgedd preswyl yn hysbys.		
Arall	Posibilrwydd buddion archeolegol.	Bydd angen Asesiad Archeolegol.		

Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu
Fersiwn wedi'i diweddarau, Rhagfyr 2016

	Posibilrwydd effaith ar Safle Natura 2000.	Efallai y bydd angen sgrinio ar gyfer HRA lefel prosiect ar adeg gwneud cais.
--	--------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------

Croesgoch - OS 7445, i'r Gogledd o'r Efail (HSG/028/00012)

0.67 Ha	20 anheddau	30 Dph	Tir Glas	Hyd at 5% Tai Fforddiadwy
---------	-------------	--------	----------	---------------------------

Disgrifiad o'r safle

Mae'r neilltuad tir hwn yn safle tir glas. Mae'r safle o fewn terfynau tir amaethyddol i'r gogledd ac i'r dwyrain, ffordd Llanrhian i'r de-orllewin a neilltuad tir ar gyfer tai HSG/028/00013 i'r de-ddwyrain. Mae Ysgol Croesgoch gyferbyn â'r safle ar ochr arall Ffordd Llanrhian.

Hanes cynllunio perthnasol

15/0247/PA – tir i'r gogledd o The Forge, Croesgoch – datblygiad preswyl â 23 o anheddau (amlinellol, gyda phob un yn faterion a gedwir yn ôl) – cymeradwywyd yn amodol 09/09/16

12/0446/PA – tir i'r gogledd o The Forge, Croesgoch – datblygiad preswyl (24 o anheddau) (amlinellol) – dim penderfyniad ym mis Tachwedd 2016

08/0289/PA – tir i'r gogledd o The Forge, Croesgoch – datblygiad preswyl (amlinellol) – gwrthodwyd 18/08/11

